

*Cynllun Tymor
i Rieni Cyfnod Sylfaen*



*Dosbarthiadau
Blwyddyn 1 a 2:
Miss Davies
Miss Dempsey
Miss Richards*



Tymor yr Haf 2022

Thema: Bach a Mawr.

Edrychwn ymlaen at addysgu agweddau o'r Cwricwlwm Newydd wrth fynd ar antur gydag ein thema 'bach a mawr' yn ystor tymor yr Haf.



Y Chwe Maes Dysgu:

Iechyd a Lles: Rhown sylw ar drosglwyddo'r tymor yma, drwy baratoi'r disgyblion i'w blwyddyn newydd ym mis Medi. Yn ystod sesiynau amser cylch, byddwn yn trafod a chynnal gweithgareddau 'pan dwi'n fawr'. Byddwn hefyd yn dysgu ac ymchwilio am lygredd a sbwriel yn ein cymuned ac o'n cwmpas. Mabolgampau, athletau a defnyddio offer mawr fydd cynnwys ein gwersi Addysg Gorfforol y tymor hwn ac edrychwn ymlaen at addysgu'r plant am bwysigrwydd ymlacio yn ogystal â gweld eu hochr cystadleuol!



Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Ceisiwn hybu'r iaith Gymraeg drwy amrywiaeth eang o weithgareddau o ganu i ddysgu patrymau brawddeg wythnosol. Y tymor yma byddwn yn creu rhaglen dywydd a chanu mewn Jambori. Byddwn yn parhau i ddefnyddio rhaglenni ffonolegol megis Tric a Chlic i ddatblygu eu sgiliau darllen yn ogystal â gosod tasgau i hybu uwchsgiliau darllen. Mae mynd i fyd dychmygol y plant yn bwysig i ni fel modd o'u sbarduno i ysgrifennu a rhoddwn gyfleoedd i'r plant arbrofi gyda gwahanol ffurfiau ysgrifennu boed hynny'n thematig, ffeithiol neu'n drawsgricwlaidd. Byddwn yn ymarfer y sgil o ysgrifennu llythyr y tymor hwn, yn ogystal ag ysgrifennu e-bost, disgrifio creaduriaid y môr o long danfor a blog. Addysgwn y plant hefyd i gyfathrebu drwy'r iaith Makaton a byddwn yn canolbwyntio ar arwydd newydd yn wythnosol.

Mathemateg a Rhifedd: Byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu amrywiaeth o sgiliau megis ffracsiynau, problemau amser, pwysau, tymheredd, cynhwysedd, tablau a rhannu. Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i'r plant weithio'n ymarferol, yn drawsgricwlaidd a thrwy eu chwarae; boed hynny'n ymdrin â dŵr yn yr ardal ddŵr tu allan neu'n pwyso ffrwythau a llysiau yn y siop yn yr ardal chwarae rôl!



Y Celfyddydau Mynegiannol: Byddwn yn canu caneuon thema ac yn cyfansoddi darn o gerddoriaeth am greaduriaid bychain. Bydd cyfle i wrando a thrafod darnau o gerddoriaeth am y môr ac ymateb yn greadigol drwy greu dawn. Byddwn yn creu darn o'r enw 'Tonnau' ar Chrome Music Lab. Byddwn yn cael y cyfle i efelychu gwaith Leri Tecwyn ac adeiladu adeiladau rhyfeddol y byd.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Byddwn yn ennyn chwilfrydedd y plant a meithrin eu sgiliau i ddysgu'n annibynnol drwy amrywiaeth o weithgareddau, ymchwiliadau ac arbrofion cyffrous, megis arbrawf ddŵr, ras falwod a ras falwod. Byddwn yn cymhwyso'r sgiliau fframwaith cymhwysedd digidol drwy arbrofi a defnyddio Minecraft addysgol, recordio a golygu bwletin tywydd.

Dyniaethau: Edrychwn ymlaen at ddysgu am ryfeddodau'r byd a gwerthfawrogi'r byd o'n cwmpas. Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i addysgu yn yr awyr agored gan wneud llu o weithgareddau trawsgricwlaidd yn Ysgol y Goedwig. Byddwn yn dathlu dathliadau amrywiol o amgylch y byd.



Y Pedwar Diben

Bydd y Cwricwlwm Newydd yn rhoi y sylfaen sydd ei angen ar blant i lwyddo mewn byd sy'n newid. Mae'r cwricwlwm yn newid i helpu pobl ifanc i fod yn fwy hyblyg, eu cymell i barhau i ddysgu sgiliau newydd wrth i fywyd a'r byd newid o'u cwmpas.

Y nod yw cefnogi plant a phobl ifanc i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- yn gyfranwyr metrus, creadigol
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus
- yn unigolion iach, hyderus

Bydd yr agweddau uchod yn cael sylw blaenllaw yn ein cynlluniau ac rydym yn teimlo'n eiddgar ac yn hyderus y gallwn feithrin y sgiliau hyn yn ein plant.

I wybod mwy am y Cwricwlwm Newydd, sganiwch y côd isod:



Os hoffech unrhyw wybodaeth pellach, mae croeso i chi ebostio athrawes dosbarth eich

